

COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU

CYFARFOD Y PWYLLGOR ARCHWILIO A SICRWYDD RISG A GYNHALIUYD TRWY MICROSOFT TEAMS DDYDD LLUN 29 TACHWEDD 2021 (10:30 – 11:45)

Aelodau CFfDLC yn Bresennol: Ceri Stradling trwy MS Teams (Cadeirydd), Dave Powell (Aelod), Julie May (Aelod), Julie James trwy MS Teams (Aelod Annibynnol)

Cynrychiolydd Archwilio Cymru yn Bresennol: Julie Rees trwy MS Teams

Cynrychiolydd TIAA yn Bresennol: Helen Cargill trwy MS Teams

Cynrychiolydd Cymwysterau Cymru yn Bresennol: Sean Gaffney trwy MS Teams

Swyddogion CFfDLC yn Bresennol: Shereen Williams (Prif Weithredwr), David Carr (Rheolwr Cyllid), David Burley (Pennaeth Busnes)

1. Ymddiheuriadau am absenoldeb

1.1 Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

2. Datganiadau o Fuddiant

2.1 Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

3. Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 26 Gorffennaf 2021

3.1 **Penderfynwyd** mabwysiadu cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 26 Gorffennaf 2021 yn amodol ar ychwanegu 'arolygon etholiadol' ar ddiwedd y frawddeg gyntaf ym mharagraff 9.1.

4. Materion yn Codi o'r Cyfarfod Blaenorol.

4.1 Nododd y Pwyllgor fod mwyafrif yr eitemau a gododd o'r cyfarfod blaenorol bellach wedi'u cwblhau.

4.2 Roedd dwy eitem yn weddill, sef enwebu aelod fel Hyrwyddwr TGCh, a hyfforddiant gloywi Diogelwch TGCh i'r holl staff ac aelodau. Nodwyd y bydd y camau hyn yn cael eu cwblhau ar ôl penodi aelodau newydd.

4.3 Adroddodd Shereen Williams fod Llywodraeth Cymru wedi gwneud gorchmynion ar gyfer arolygon etholiadol pob un o'r 22 prif awdurdod. Bydd CFfDLC yn cynnal ymchwil cyn hir ar effaith amddifadedd a chartrefi gwyliau wrth baratoi ar gyfer y rhaglen nesaf o arolygon etholiadol.

5. Cynllun Gwaith 2021-22 y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg

5.1 Nododd y Pwyllgor Gynllun Gwaith 2021-22, oedd wedi'i newid fel y cytunwyd yn y cyfarfod blaenorol.

6. Adroddiad ar Ddiogelwch TGCh a Data

6.1 Nododd y Pwyllgor na fu unrhyw ddigwyddiadau diogelwch data ar gyfer 2021-22 hyd yma.

6.2 Nododd y Pwyllgor yr adroddiad ar ddiogelwch TGCh a gyflwynwyd gan Sean Gaffney. Rhoddodd grynodedb o'r bygythiadau seiber diweddaraf a nodwyd gan y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol ac esboniodd mai'r un sy'n achosi'r bygythiad mwyaf sylweddol i CFfDLC oedd y cynnydd mewn galwadau ffôn a negeseuon testun twyllodrus. Atgoffodd staff ac aelodau sut i adrodd ar alwadau twyllodrus o'r fath.

6.3 Roedd sgôr Cyflwr o ran Seiberddiogelwch CFfDLC yn isel ar hyn o bryd oherwydd bod diweddariadau diogelwch wedi'u gosod yn ddiweddar, ond roedd y sgôr hwn yn amrywio a byddai'n cynyddu wrth i ddiweddariadau newydd ddod ar gael ac yn barod i'w gosod.

6.4 Nododd yr adroddiad fod gwefan CFfDLC yn defnyddio fersiwn o system rheoli cynnwys Drupal nad oedd yn cael ei chefnogi mwyach gan y gwerthwr. Argymhellwyd bod CFfDLC yn cysylltu â'r partner sy'n cynnal y wefan i ofyn am uwchraddio'r system rheoli cynnwys i fersiwn fwy diweddar a gefnogir gan y gwerthwr. Nodwyd bod y Pennaeth Busnes mewn cysylltiad â'r gwerthwr ar hyn o bryd ynghylch y mater hwn.

6.5 Adroddwyd bod hyfforddiant gloywi diogelwch TGCh eisoes wedi'i gyflwyno ar gyfer staff ac y bydd yn cael ei gyflwyno i aelodau yn dilyn penodiad yr aelodau newydd.
Gweithredu: Pennaeth Busnes / Cymwysterau Cymru **Erbyn:** 31 Mawrth 2022

6.6 Cyfeiriodd y Cadeirydd at yr Adroddiad Cryno ar Sicrwydd Rheolaethau Mewnol yr Archwiliad Mewnol a oedd yn amlygu datblygiadau presennol ym maes risg a rheolaeth gan gynnwys risgiau TG mewn perthynas â bregusrwydd VMWare a'r Canllawiau Diogelwch Dyfeisiau gan y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol. Gofynnodd i Sean Gaffney a oedd hyn yn rhywbeth y mae angen i CFfDLC weithredu arno. Atebodd Sean Gaffney nad oedd CFfDLC yn defnyddio VMWare felly nid oedd y mater hwnw'n berthnasol.

6.7 O ran y Canllawiau Diogelwch Dyfeisiau gan y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol, dywedodd Sean Gaffney fod Cymwysterau Cymru yn ymrwmo i sicrhau bod holl ddyfeisiau Surface Pro CFfDLC yn parhau i fod heb eu heintio. Gan fod rhai staff ac aelodau yn defnyddio eu dyfeisiau TG personol yn achlysurol at ddibenion gwaith, ystyriwyd y bydd yn werth ehangu cwmpas y warchodaeth i gynnwys dyfeisiau o'r fath. **Cytunwyd** y bydd Cymwysterau Cymru'n ymchwilio i'r mater hwn.

Gweithredu: Pennaeth Busnes / Cymwysterau Cymru **Erbyn:** 1 Gorffennaf 2022

7. Archwilio Mewnol - Adroddiadau Archwilio Canol Blwyddyn 2021-22.

- 7.1 Adroddodd Helen Cargill fod y gwaith archwilio a wnaed ym mis Medi 2021 wedi cynnwys meysydd Ymwreiddio Rheoli Risg a Lliniaru, Trefniadau Cyflogres a Rheolaeth Strategol a Llywodraethu Corfforaethol. Manylwyd ar ganfyddiadau'r gwaith archwilio yn yr adroddiadau a roddodd raddfeydd sicrwydd Sylweddol ar gyfer yr holl archwiliadau a gynhaliwyd. Gwnaed yr argymhelliad archwilio canlynol (Rheolaidd) yn yr adroddiadau ar gyfer Rheoli Risg a dau argymhelliad archwilio (Rheolaidd) ar gyfer Trefniadau Cyflogres:
- Cynnal cyfres o adolygiadau dwfn o risgiau allweddol er mwyn rhoi sicrwydd bod mesurau lliniaru priodol ar waith.
 - Adolygu a chymeradwyo Talu Cyflogau Staff a Gyflogir yn Uniongyrchol, Ffioedd Comisiynwyr a Gweithdrefnau Hawliadau Teithio a Chynhaliath cyn gynted â phosibl ac mewn modd amserol wrth symud ymlaen.
 - Rhoi Cytundeb Rhannu Data ar waith â Chyfrifwyr y Comisiwn, James De Frias, a'i lofnodi a'i ddyddio yn unol â hynny a'i adolygu'n rheolaidd.
- 7.2 Derbyniwyd yr argymhellion a dyrannwyd terfynau amser ar gyfer eu gweithredu. O ran yr argymhelliad ynghylch adolygiad dwfn o risgiau allweddol, roedd y Pwyllgor o'r farn bod risgiau a champau lliniaru yn cael eu hadolygu'n ddigonol ym mhob cyfarfod CFfDLC a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. **Cytunwyd** y dylid rhoi'r gorau i'r argymhelliad archwilio hwn.
- 7.3 Nodwyd bod yr Adroddiad Cryno ar Sicrwydd Rheolaethau Mewnol yn nodi y bydd yr archwiliad ar ddiwedd y flwyddyn yn cynnwys archwiliad o arolygon Etholiadol a Seneddol, er y cytunwyd yn y cyfarfod blaenorol y dylid newid hyn i Rheolaethau Ariannol Allweddol. Esboniwyd er bod y Cynllun Archwilio Mewnol wedi'i ddiwygio a'i gyhoeddi, nid oedd y newid wedi'i wneud wedi hynny i'r Adroddiad Cryno ar Sicrwydd Rheolaethau Mewnol. **Cytunwyd** y bydd y Rheolwr Cyllid yn dosbarthu'r Cynllun Archwilio Mewnol terfynol i'r Aelodau ar ôl y cyfarfod.
Gweithredu: Rheolwr Cyllid **Erbyn:** 30 Tachwedd 2021
- 7.4 Diolchwyd Helen Cargill gan y Cadeirydd am ei hadroddiad.

8. Holiadur Hunanasesu'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

- 8.1 Adroddwyd bod holiadur 2020-21 wedi'i ddisbarthu'n ddiweddar i aelodau ei lenwi. **Cytunwyd** y bydd yr holiadur yn cael ei lenwi a'i ddychwelyd gan aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg erbyn 31 Rhagfyr 2021.
- 8.2 **Cytunwyd** y dylai Julie May lenwi'r holiadur ar gyfer dau gyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a fynychwyd ganddi yn ystod y flwyddyn.
- 8.3 Nodwyd y bydd dadansoddiad o'r ymatebion i'r holiaduron yn cael ei gyflwyno i gyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ym mis Chwefror.

9. Argymhellion Archwilio – Adroddiad ar Gynnydd.

- 9.1 Ystyriodd y Pwyllgor y cynnydd ar yr argymhellion archwilio mewnol sy'n weddill, gan gynnwys y rhai a oedd wedi'u rhoi ar waith ers yr adroddiad blaenorol.
- 9.2 Roedd tri argymhelliad archwilio mewnol 2020-21 ynghylch y rhaglen arolygon etholiadol i fod i gael eu rhoi ar waith ddiwedd 2021-22 neu tua diwedd 2022-23.
- 9.3 Roedd dau argymhelliad archwilio allanol 2021-22 wedi'u rhoi ar waith bellach.
- 9.4 Nodwyd y tri argymhelliad archwilio mewnol 2021-22 a ddeilliodd o'r archwiliad mewnol canol blwyddyn diweddar. Fel y cytunwyd yn eitem 7 ar yr agenda, bydd yr argymhelliad ynghylch adolygiad dwfn o risgiau allweddol yn cael ei ddileu.

10. Adroddiad Rheoli Risg

- 10.1 Ystyriwyd y cofrestrau a'r polisi risg cyfredol. Rhoddwyd manylion am y newidiadau a wnaed i'r cofrestrau risg Corfforaethol a Gweithredol ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor.
- 10.2 Roedd y Pwyllgor o'r farn y gellid lleihau'r sgôr risg ar gyfer Risg OP5 yn dilyn newidiadau diweddar i'r weithdrefn recriwtio. Adroddwyd y bydd CFfDLC hefyd yn symud i wasanaethau recriwtio ar-lein Civil Service Jobs, a fydd yn gyflymach na'r dull recriwtio blaenorol. **Cytunwyd** y bydd y Tîm Rheoli yn ystyried lleihau sgôr risg OP5.
Gweithredu: Rheolwr Cyllid **Erbyn:** 31 Ionawr 2022

11. Adroddiad Monitro'r Gyllideb.

- 11.1 Nododd y Pwyllgor gofnodion adroddiad y gyllideb a gyflwynwyd yng nghyfarfod y Comisiwn ar 28 Medi 2021.
- 11.2 Nodwyd bod y gyllideb yn parhau i ddilyn tueddiad diweddar y misoedd diwethaf ac y bydd tanwariant ar ddiwedd y flwyddyn. Fodd bynnag, bydd rhywfaint o wariant sylweddol yn chwarter olaf y flwyddyn ar ymchwil y Rhaglen Arolygon Etholiadol, porth arolygu newydd, a chronfa ddata caffael newydd.

12. Rhoddion a Lletygarwch – Adroddiad a Datganiadau

- 12.1 Nododd y Pwyllgor na wnaed unrhyw ddatganiadau o roddion a lletygarwch ers y cyfarfod blaenorol.

13. Cwynion

- 13.1 Nododd y Pwyllgor fod gohebiaeth wedi dod i law yn ddiweddar ynghylch arolwg etholiadol Sir Gaerfyrddin. Yn dilyn cyngor cyfreithiol, canfuwyd na ellid ystyried yr ohebiaeth fel cwyn ffurfiol gan ei bod wedi'i chyflwyno ar ôl i'r Gweinidog wneud gorchymyn mewn perthynas ag arolwg etholiadol Sir Gaerfyrddin.

14. Adroddiad a Pholisïau Chwythu'r Chwiban a Thwyll

- 14.1 Nododd y Pwyllgor na fu unrhyw achosion o chwythu'r chwiban na thwyll ers y cyfarfod diwethaf.

15. Adroddiad Rhyddid Gwybodaeth

- 15.1 Nododd y Pwyllgor y ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a gafwyd rhwng mis Awst 2021 a mis Tachwedd.

16. Unrhyw Fusnes Arall

- 16.1 Adroddodd Julie James ei bod wedi mynychu digwyddiad ar gyfer aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a gynhaliwyd gan Asiantaeth Archwilio Mewnol y Llywodraeth. Rhoddodd grynodedb o'r materion a drafodwyd, a oedd yn canolbwyntio'n bennaf ar newidiadau sydd ar y gweill o ran y dull archwilio yn Lloegr.

- 16.2 Diolchwyd Julie James gan y Cadeirydd am fynychu'r digwyddiad ar ran y Pwyllgor.

17. Dyddiadau'r Cyfarfodydd Nesaf

- 17.1 Y dyddiadau ar gyfer y cyfarfodydd nesaf yw:
28 Chwefror 2022